

Estyniad y Cynllun Grantiau ar gyfer Addoldai Rhestredig

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi newidiadau i gwmpas a gweithrediad y Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig, a ddaw i rym o 1 Hydref 2013. Bydd y newidiadau hyn yn galluogi rhagor o addoldai rhestredig i hawlio grantiau trwy'r cynllun.

O 1 Hydref 2013, bydd gwaith ar organau pib, clociau mewn tyredau, clychau a rhaffau clychau yn gymwys ar gyfer hawliau o dan y cynllun. Bydd gwasanaethau proffesiynol sy'n perthyn yn uniongyrchol i waith adeiladu cymwys megis ffioedd penseiri hefyd yn dod yn gymwys:-

O'r dyddiad hwn, caiff ceisiadau i ddefnyddio'r cynllun hwn eu derbyn oddi wrth grwpiau crefyddol neu elusennol sydd â'r prif ddiben o gadw, atgyweirio a chynnal addoldai rhestredig sy'n segur ac nad ydynt mewn perchnogaeth breifat.

Ar y cyd â'r newidiadau hyn i'r cwmpas, daw newidiadau gweinyddol er mwyn symleiddio hawlio trwy'r cynllun:

- Mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis, caiff unrhyw addoldy gyflwyno un cais gan ddefnyddio anfonebau cymwys o lai na £1000, ond yn fwy na £500 (ac eithrio'r TAW a dalwyd). Mae hyn yn ogystal â nifer diderfyn o hawliau lle mae gwerth y gwaith cymwys a wnaed (ac eithrio TAW) yn £1000 neu'n fwy;
- Derbynnir anfonebau wedi'u sganio neu wedi'i llungopïo bellach er mwyn ategu hawliau; a,
- Bydd y cynllun yn prosesu rhediadau taliadau bob wythnos er mwyn cyflawni llif llyfnach o daliadau i ymgeiswyr. Bydd hyn yn arwain at y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn derbyn eu grantiau'n gyflymach.

Bydd manylion llawn y newidiadau hyn, sut y byddant yn gwneud cais a ffurflenni cais newydd ar gael ar wefan y cynllun grantiau ar gyfer Addoldai Rhestredig o 1 Hydref 2013.

<http://www.lpwscheme.org.uk/>

Sylwer:

Mae'r Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig yn cynnig grantiau tuag at y TAW a gafwyd yn sgil gwneud atgyweiriadau ac addasiadau i adeiladau rhestredig a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer addoli cyhoeddus. Mae gan y cynllun gyllideb flynyddol o £42m, ac ar hyn o bryd, mae'n derbyn 4000 o hawliadau bob blwyddyn.

Mae'r ehangiad i gynnwys ffioedd proffesiynol a gwaith ar organau pib, clociau mewn tyredau, clychau a rhaffau clychau'n gymwys i waith a gyflenwir ar neu ar ôl 1 Hydref 2013.